Cyfeillion Amgueddfa Cymru
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

Friends of National Museum Wales
Cathays Park, Cardiff CF10 3NP

DYDD MERCHER 19 AWST 2015

am 10.30yb yn Narlithfa Reardon Smith, Parc Cathays

'Archive Films of NMW Cardiff:
John Ormond's *A Bronze Mask: A Film in Elegy for Dylan Thomas* (1969)'

Sgwrs gan Dr Keiron Smith

Cyflwyna'r ffilm hon gipolwg ar gangen amgueddfaol Parc Cathays fel yr oedd yn ystod y 1960au. Mae John Ormond (Thomas) yn adnabyddus fel bardd Eingl-Gymreig yr oedd ei waith yn ymateb mewn ffyrdd dychmygus a thelynegol i hanes a diwylliant Cymru, ymysg pynciau eraill. Ond roedd Ormond, yn ogystal â bod yn fardd, hefyd yn artist dawnus drwy gyfrwng ffilm. Erys y ffilmiau dogfennol a luniodd a'u cynhyrchu o fewn i Uned Ffilm BBC Cymru, Caerdydd, yn eitemau creadigol cofiadwy. Ceir ynddynt hwythau fyfyrdodau treiddgar ar hanes a diwylliant ein gwlad. Yn ystod y sesiwn dangosir a thrafodir un o glasuron Ormond, sef *A Bronze Mask: A film in Elegy for Dylan Thomas.* Yr hyn a ddethlir ynddi, yn null unigryw Ormond, yw cyflwyno masg angau Dylan Thomas, o waith David Slivka, i Amgueddfa Cymru.

Yn 2014, cwblhaodd Keiron Smith ei ddoethuriaith ar farddoniaeth a ffilmiau John Ormond. Ar hyn o bryd, mae'n diwtor yn yr Adran Saesneg, Prifysgol Abertawe, ac yn paratoi cyfrol ar ffilmiau'r bardd.

Y tâl mynediad, i gynnwys coffi a bisgedi yn Ystafelloedd Oriel ar ôl y sgwrs, yw £8 i'r Cyfeillion sydd yn archebu ymlaen llaw, neu £10 wrth y drws. Er mwyn manteisio ar y pris gostyngedig hwn, llenwch y daflen isod, os gwelwch yn dda, a'i hanfon gyda'ch siec at **Ann Saer, 15 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QA** (ffôn **029 2056 2756**; ebost **annsaer@talktalk.net**) erbyn dydd Gwener, **14 Awst**. **Noder: os byddwch yn anfon cais am fwy nag un digwyddiad, anfonwch siec ar wahân am bob un, os gwelwch yn dda.** I arbed costau postio, ni fydd cydnabod. Gwnewch ymdrech i ddod – a dewch â'ch ffrindiau hefyd, gan fod y digwyddiad yn agored i'r cyhoedd am dâl o £10 (ymlaen llaw neu wrth y drws). Bydd croeso cynnes iddynt.

…….

Cyfeillion Amgueddfa Cymru: Sgwrs gan Dr Keiron Smith
'Archive Films of NMW Cardiff:
John Ormond's *A Bronze Mask: A Film in Elegy for Dylan Thomas'* (1969)
Dydd MERCHER AWST 19 2015 am 10.30yb
yn Narlithfa Reardon Smith, Parc Cathays, Caerdydd

Carwn archebu ..…… (l)le ar gyfer y digwyddiad uchod. Amgaeaf siec am £ ……. (yn daladwy i Cyfeillion Amgueddfa Cymru).

Enw(au) ……

Cyfeiriad …….

Cod post …...……. Ffôn ……. Ebost ……